# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 14 Mehefin 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes
10 Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Cynnydd yn Rhestrau Aros Cleifion Allanol yr NHS

**C7 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y goblygiadau polisi yn sgîl y cynnydd yn ffigurau rhestrau aros cleifion allanol yr NHS a gyhoeddwyd ym Mai? (OAQ11909)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Mae fy mholisïau wedi arwain at ogwydd amlwg am i lawr mewn rhestrau aros, gyda gostyngiad mewn pump o'r saith mis diwethaf. Bydd gweithredu argymhelliad allweddol adroddiad y grŵp datblygu strategaeth amserau aros yn parhau â'r gwelliant hwn ac yn sicrhau mai dim ond cleifion y mae angen iddynt weld ymgynghorydd sydd ar restrau cleifion allanol a bod opsiynau eraill priodol yn cael eu datblygu.

### Lleihau Rhestrau Aros

**C8 Janet Davies:** Pa gamau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod rhestrau aros yn lleihau? (OAQ11913)

**Jane Hutt:** Byddwn yn parhau i adeiladu ar lwyddiant y llynedd, pan gafwyd gostyngiad o 10,000 o gleifion ar restrau aros. Cyn bo hir, byddwn yn lansio ein strategaeth amserau aros mewn partneriaeth â'r NHS er mwyn canolbwyntio ar wasanaethau sydd yn flaenoriaeth gyda chefnogaeth cynnydd sylweddol mewn adnoddau.

Caiff perfformiad ei fonitro'n ofalus drwy gydol y flwyddyn, ac mae'r rhaglen Dyfeisgarwch mewn Gofal bellach wedi ymestyn i sbarduno'r newid a'r ysgogiad sydd eu hangen ar yr NHS yng Nghymru i sicrhau gostyngiadau sylweddol mewn amserau aros.

### Oedi wrth Aros am Driniaeth

**C9 Owen John Thomas:** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o'r oedi a brofir gan gleifion sydd yn aros am driniaeth yn uned damweiniau ac argyfyngau Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd? (OAQ11904)

**Jane Hutt:** Mae natur unedau brys yn golygu y cânt eu harwain gan alw ac, yn anffodus, mae hyn yn arwain at oedi ar adegau prysur a dyma fu'n digwydd yn ddiweddar yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Fro bob amser yn chwilio am ffyrdd o leihau'r amserau y mae cleifion yn aros am driniaeth yn yr uned frys. Mae cynnig i leoli'r brif ganolfan gofal sylfaenol ar-ôl-oriau wrth ochr yr uned damweiniau ac achosion brys, a ddylai gynorthwyo i reoli cleifion brys. Yn ogystal, mae'r ymddiriedolaeth yn diweddaru ac yn ymestyn swyddogaeth ymarferwyr nyrsio, yn ogystal â chynyddu eu niferoedd, er mwyn helpu i leihau amseroedd aros.

**Cynnydd yn Rhestrau Aros Cleifion Mewnol yr NHS**

**C10 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y goblygiadau polisi yn sgîl y cynnydd yn ffigurau rhestrau aros cleifion mewnol yr NHS a gyhoeddwyd ym Mai? (OAQ11910)

**Jane Hutt:** Fy mholisi fu i roi pwysau ar restrau aros ac amserau aros gyda'r nod o'u cwtogi, ac mae'r niferoedd ar y rhestr wedi disgyn mewn naw o'r 11 mis diwethaf.

Mae'r cynnydd ym Mai yn unol â blynyddoedd blaenorol. Yr oedd rhestrau aros cleifion mewnol ac achosion dydd dros y tair blynedd diwethaf wedi codi yn Ebrill o'u cymharu â Mawrth. Fodd bynnag, er gwaethaf yr anwadalwch disgwyliedig hwn mewn rhestrau aros ar yr adeg hon o'r flwyddyn, disgynnodd rhestrau aros cleifion mewnol ac achosion dydd mewn dau awdurdod iechyd.

**Darpariaeth Gwasanaethau drwy Gyfrwng y Gymraeg**

**C11 Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddarpariaeth gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru? (OAQ11931) [W]

**Jane Hutt:** Yr oedd adroddiad Cyngor Defnyddwyr Cymru, a gyhoeddwyd y llynedd, yn amlygu'r diffyg darpariaeth o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn yr NHS yng Nghymru. Mae'r Cynulliad yn gwbl ymrwymedig i godi'r ymwybyddiaeth o faterion sydd yn ymwneud â diwylliant a'r iaith ar gyfer pob un o'i staff rheng-flaen. Yr ydym yn bwriadu cyflawni hyn drwy gymryd i ystyriaeth anghenion cleifion a staff sydd yn siarad Cymraeg wrth gynllunio ar gyfer gweithlu'r dyfodol mewn meysydd megis recriwtio, cadw a hyfforddi staff. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg a swyddogion y Cynulliad yn gweithio mewn partneriaeth ar hyn o bryd, er mwyn bwrw ymlaen â'r materion hyn. Cyn bo hir byddant yn sefydlu tasglu Cymru-gyfan a fydd yn llunio strategaethau i fwrw ymlaen â materion sydd yn ymwneud â'r iaith Gymraeg o fewn yr NHS yng Nghymru.

**Cynnydd Cynllun yr NHS ar gyfer Cymru**

**C12 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar gynnydd cynllun yr NHS ar gyfer Cymru? (OAQ11906) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Gwahaniaethau wrth Ymdrin â Chlefyd Alzheimer**

**C13 Alun Cairns:** A yw'r Gweinidog wedi ymchwilio i'r gwahaniaethau a all fodoli rhwng y sector preifat a'r NHS wrth ymdrin â chlefyd Alzheimer? (OAQ11944)

**Jane Hutt:** Nid yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyfrifol am ofal iechyd y tu allan i'r gwasanaeth iechyd gwladol. Nid ydym wedi cynnal unrhyw ymchwil mewn perthynas â gofal iechyd yn y sector preifat ac nid ydym yn bwriadu gwneud hynny.

**Gwasanaethau Oncoleg a Radiotherapi yn Ysbyty Llwyn Helyg**

**C14 Richard Edwards:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth o ran gwasanaethau oncoleg a radiotherapi yn Ysbyty Llwyn Helyg? (OAQ11911) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Recriwtio a Chadw Nyrsys yng Nghymru**

**C15 Nick Bourne:** Pa gynnydd sydd yn cael ei wneud tuag at recriwtio a chadw nyrsys yng Nghymru? (OAQ11936)

**Jane Hutt:** Mae cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer cyrsiau dychwelyd at ymarfer i nyrsys sydd wedi llithro ar ei hôl hi gyda'u hymarfer ac y mae angen eu hail hyfforddi cyn iddynt ddychwelyd i weithio yng Nghymru. Hyfforddir 255 o nyrsys ychwanegol, sydd yn uwch na'r hyn sydd yn ofynnol yn ôl cynllunio

gweithlu, bob blwyddyn. Mae hwn yn fuddsoddiad sylweddol, sydd yn cynrychioli cynnydd o dros 30 y cant yn niferodd y nyrsys o'u cymharu â'r nifer a gomisiynwyd yn 1999. Disgwylir y bydd y myfyrwyr yn derbyn gwaith gan NHS Cymru, a fydd yn cynorthwyo i fynd i'r afael â phrinder staff ac felly'n gwella'r gwasanaeth a gyflwynir a gallu'r gwasanaeth i ymateb. Bydd hyrwyddo polisïau sydd yn ffafriol i'r gweithwyr gan ymddiriedolaethau'r NHS yn gymorth i gadw nyrsys.

**Arferion Meddygol Preifat yn y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru**

**C16 Richard Edwards:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar arferion meddygol preifat yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru? (OAQ11907) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Lleihau Rhestrau Aros yng Nghymru**

**C17 Geraint Davies:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma wrth geisio lleihau rhestrau aros yng Nghymru? (OAQ11912) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Nifer o Welyau Gofal Preswyl a Nyrsio Preifat a Gollwyd**

**C18 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar faint o welyau gofal preswyl a nyrsio preifat a gollwyd o ganlyniad i gau cartrefi eleni? (OAQ11937)

**Jane Hutt:** Mae'r ffigurau diweddaraf sydd gan y Cynulliad yn dangos, ar 31 Mawrth 2000, bod 334 yn llai o leoedd mewn cartrefi nyrsio a 266 yn fwy o leoedd mewn cartrefi gofal preswyl o gymharu â 31 Mawrth 1999. Yr oedd 20 yn llai o gartrefi nyrsio ar 31 Mawrth 2000 o gymharu â 31 Mawrth 1999, tra bo tri yn fwy o gartrefi preswyl mawr. Yr oedd 74 yn llai o gartrefi gofal preswyl bach (gyda thri gwely neu lai).

Yr wyf yn ymwybodol iawn o'r problemau, gan gynnwys cau cartrefi, sydd yn wynebu darparwyr cartrefi gofal annibynnol yng Nghymru ar hyn o bryd a byddaf yn parhau i drafod yn rheolaidd â'u cynrychiolwyr. Mae swyddogion hefyd yn trafod y materion hyn gydag awdurdodau lleol sydd yn gyfrifol am gomisiynu lleoedd mewn cartrefi gofal annibynnol yn eu hardaloedd.

**Manteision Yfed Llaeth o Safbwynt Iechyd**

**C19 Peter Rogers:** A yw'r Gweinidog wedi trafod manteision yfed llaeth, o safbwynt iechyd, â'r mudiad People for the Ethical Treatment of Animals? (OAQ11933)

**Jane Hutt:** Nid wyf yn ymwybodol fod y mudiad hwn wedi anfon unrhyw sylwadau ataf.

Mae llaeth yn ffynhonnell werthfawr o galsiwm, protein, ribofflafin a fitamin A a gall gyfrannu at ddeiet iach, cytbwys. Oherwydd ei fod hefyd yn cynnwys llawer o fraster, y cyngor maeth cyfredol yw y dylid yfed llaeth braster isel pan fo hynny'n bosibl.

**Ymarferion Recriwtio**

**C20 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw ymarferion recriwtio sydd yn cael eu cynnal yn yr NHS yng Nghymru ar hyn o bryd? (OAQ11899) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Rhaglenni Brechu wedi'u Hanelu at y Digartref a'r Cymunedau Crwydrol**

**C21 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch datblygu rhaglenni brechu ar gyfer tetanws, polio, hepatitis B a ffliw wedi'u hanelu at y digartref a'n cymunedau crwydrol? (OAQ11892)

**Jane Hutt:** Fel rhan o'n hymdrech i amddiffyn y boblogaeth rhag iechyd gwael, yr ydym wedi rhoi blaenoriaeth i gynyddu'r niferoedd sydd yn cael eu brechu. Mae darparu gwasanaethau ar gyfer y

digartref a theithwyr yn rhan o ddull gweithredu cyfannol gan awdurdodau iechyd ac awdurdodau lleol. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran cofrestru pobl ddigartref a theithwyr gyda meddygon teulu. Mae hwn yn gam pwysig wrth gynyddu'r nifer o bobl sydd yn cael eu brechu. Lluniwyd grŵp cydgysylltwyr brechu Cymru-gyfan er mwyn i awdurdodau iechyd gydweithio cymaint ag y bo modd.

Caiff eu hymdrechion eu hategu gan gynlluniau datblygu lleol, sydd yn galluogi awdurdodau iechyd i gynorthwyo meddygon teulu i ddarparu gofal safonol i'r rheini sydd yn cysgu ar y stryd ac i deithwyr. Lluniwyd model cynllun datblygu'r Cynulliad i sicrhau bod y grwpiau hyn yn gallu manteisio i'r eithaf ar y system gofal cymdeithasol a iechyd a'u bod yn iach ac yn aros yn iach. Gellir cymell meddygon teulu i roi mwy o'u hamser i gleifion o'r fath a byddant, ynghyd ag ymarferwyr gofal sylfaenol eraill, yn cael eu hannog i ddarparu triniaeth ac archwiliadau angenrheidiol i wella iechyd neu atal afiechyd.

**Gofal Iechyd o Safon Uchel**

**C22 David Lloyd:** Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran sicrhau bod mwy o bobl yn gallu manteisio ar ofal iechyd o safon uchel? (OAQ11901) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Rhestr Aros am Lawdriniaeth Orthopedig**

**C23 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau bod y rhestr aros am lawdriniaeth orthopedig yn nifer o ysbytai Cymru yn fwy na dwy flynedd? (OAQ11891)

**Jane Hutt:** Gan na fu digon o fuddsoddi yn y gorffennol, mae nifer o ysbytai yng Nghymru o hyd lle mae'n rhaid i gleifion aros dros ddwy flynedd am lawdriniaeth orthopedig. Nid yw hyn yn dderbyniol ac yr wyf wedi targedu adnoddau ar gyfer lleihau'r amserau aros hir fel mater o frys. Yr ydym yn awr yn gweld gostyngiad yn nifer y bobl yr effeithir arnynt, gyda'r niferoedd sydd yn aros dros 18 mis yn disgyn am y trydydd mis yn olynol.

Mae awdurdodau iechyd wedi bod yn datblygu cynlluniau penodol i wella'r gwasanaeth orthopedig gyda chymorth y rhaglen Dyfeisgarwch mewn Gofal.

**Y Niwed y mae Llygredd Aer yn ei Achosi i Iechyd**

**C24 Brian Hancock:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y niwed y mae llygredd aer yn ei achosi i iechyd? (OAQ11921) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Darpariaeth Leol ar Gyfer Dioddefwyr Sglerosis Ymledol**

**C25 Owen John Thomas:** Pa ddarpariaeth leol sydd mewn golwg ar gyfer dioddefwyr sglerosis ymledol de Cymru i gymryd lle'r gwasanaeth a roddir yn awr gan Gartref Danygraig, Porthcawl? (OAQ11902) [W]

**Jane Hutt:** Yr wyf yn deall bod y Gymdeithas Sglerosis Ymledol wedi lleihau ei defnydd o'r gwasanaethau yn Danygraig yn sylweddol. Mae trafodaethau ar ddyfodol Danygraig yn parhau ac yr wyf yn cael fy hysbysu am eu hynt. Mater i'w benderfynu yn lleol yw'r modd y mae gwasanaethau seibiant yn cael eu darparu ar gyfer pawb sydd ag anableddau sylweddol.

**Datblygiad y Campws Meddygol ym Mangor**

**C26 Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar ddatblygiad y campws meddygol ym Mangor? (OAQ11917) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Problemau Iechyd a Achosir gan Amddifadedd yn y Cymoedd

**C27 Geraint Davies:** Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu mynd i'r afael â'r problemau iechyd a achosir gan amddifadedd yn y Cymoedd? (OAQ11918) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

**C28 Dafydd Wigley:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn yr NHS? (OAQ11898) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Lleihau'r Amseroedd Aros ar Gyfer Cleifion Cardiaidd

**C29 Nick Bourne:** Pa gynnydd sydd yn cael ei wneud o ran lleihau'r amseroedd aros ar gyfer cleifion cardiaidd yn ysbytai Cymru? (OAQ11935)

**Jane Hutt:** Yr ydym yn lleihau'r nifer o bobl sydd yn wynebu gorfod aros yn hir am lawdriniaeth gardiaidd. Mae'r nifer sydd yn aros dros 15 mis wedi disgyn o 157 yn Awst 2000 i 69 yn Ebrill 2001.

Yr wyf yn awr yn ceisio gostwng yr amser aros hwyaf ar gyfer llawdriniaeth gardiaidd reolaidd i 12 mis. Er mwyn cynorthwyo i gyflawni hyn, yr wyf wedi dyrannu £2 filiwn yn ychwanegol yn y flwyddyn ariannol hon. Lluniwyd contractau gydag Ysbyty Hammersmith a darparwr ym Manceinion a derbynnir achosion ychwanegol yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Treforys fel y rhan gyntaf o'r ehangu, a fydd ar waith yn llawn yn y flwyddyn ariannol nesaf.

### Ymddiriedolaeth NHS Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**C30 Dafydd Wigley:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar Ymddiriedolaeth NHS Gwasanaethau Ambiwlans Cymru? (OAQ11920) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Athrawon Trwyddedig ym Maes Addysg Blynyddoedd Cynnar

**C6 Owen John Thomas:** Faint o'r athrawon sydd yn gweithio ym maes addysg blynyddoedd cynnar (tair a phedair oed) sydd yn athrawon trwyddedig? (OAQ11886) [W]

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Yn y sector a gynhelir, rhaid i'r holl unigolion a gyflogir fel athrawon fod â statws athro cymwysedig.

### Adolygu Llwyth Gwaith Athrawon

**C7 Gareth Jones:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i adolygu llwyth gwaith athrawon yng Nghymru? (OAQ11958)

**Jane Davidson:** Mae PriceWaterhouseCoopers yn cynnal astudiaeth o lwyth gwaith athrawon yng Nghymru a Lloegr ar ran yr Adran Addysg a Chyflogaeth. Gwneir argymhellion ynghylch ffyrdd i leihau llwyth gwaith i'r corff adolygu athrawon ysgol er mwyn iddo eu hystyried, ynghyd â materion eraill, yn ei adroddiad ar gyfer 2002.

Caiff ysgolion yng Nghymru eu cynnwys yn yr astudiaeth a chynrychiolir y Cynulliad Cenedlaethol ar grŵp llywio'r astudiaeth.

**Polisi Ysgolion Gwledig**

**C8 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi dyddiadau pendant ar gyfer cyflwyno mater polisi ysgolion gwledig i’w drafod mewn Cyfarfod Llawn? (OAQ11928)

**Jane Davidson:** Wrth ystyried polisi ar gyfer ysgolion gwledig, yr wyf wedi dweud yn glir yr hoffwn ystyried adolygiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ynghylch darparu lleoedd mewn ysgolion. Disgwylir cynnal trafodaeth ar adroddiad y Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Gorffennaf. Wrth ymateb i’r adroddiad, byddaf yn amlinellu fy syniadau ynghylch datblygu’r polisi ar gyfer ysgolion gwledig.

**Cyrsiau Colegau Cymuned sydd yn cael eu Canslo**

**C9 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y cyrsiau mewn colegau cymuned sydd yn cael eu canslo oherwydd nad oes digon o bobl yn cofrestru arnynt? (OAQ11887)

**Jane Davidson:** Nid oes gennym golegau cymuned yng Nghymru ac nid yw’r ddeddfwriaeth addysg yn darparu ar eu cyfer. Yr wyf felly’n cymryd bod y cwestiwn yn ymwneud ag addysg barhaus i oedolion neu addysg i oedolion yn y gymuned, ac awdurdodau addysg lleol sydd yn darparu ar eu cyfer dan nawdd Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant. Fodd bynnag, nid oes gan y Cynulliad wybodaeth ynghylch nifer y cyrsiau o’r fath sydd yn cael eu canslo oherwydd nad oes digon o bobl yn cofrestru arnynt.

**Math Newydd o Arholiadau Safon Uwch**

**C10 David Davies:** Pa gamau y mae’r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau nad yw’r math newydd o arholiadau Safon Uwch yn gosod beichiau diangen ar fyfyrwyr? (OAQ11890)

**Jane Davidson:** Mae’r diwygiadau a roddwyd ar waith ar gyfer Medi 2000 wedi’u cynllunio i ehangu meysydd dysgu ar gyfer myfyrwyr ôl-16 ac i ategu’r negeseuon bod cymwysterau academaidd a galwedigaethol yn cael eu cyfri’n gydradd. Mae hynny’n hanfodol ar gyfer ein llwyddiant economaidd yn y dyfodol. Mae’r cymwysterau newydd hefyd yn ddigon hyblyg i alluogi pob myfyriwr i wneud penderfyniadau pellach ar ôl blwyddyn o astudio. Nid yw’r cwricwlwm chweched dosbarth hynod o arbenigol, traddodiadol yn ddigon.

Yr wyf yn parhau’n ymrwymedig i’r diwygiadau hyn. Fodd bynnag, drwy gyflwyno’r diwygiadau mwyaf sylfaenol i gymwysterau safon uwch am 50 mlynedd, mae’n debyg y gwelir problemau ar y cychwyn. Rhaid i ni sicrhau nad yw’r cymwysterau newydd yn gosod beichiau diangen ar fyfyrwyr, nac ar ysgolion a cholegau. Yr ydym eisoes yn cynnal adolygiad o’r hyn a ddysgwyd yn y dyddiau cynnar ar ôl i’r cymwysterau newydd gael eu rhoi ar waith. Byddaf yn gwrando’n ofalus ar unrhyw bryderon a fynegir a byddaf yn cymryd unrhyw gamau y credaf sydd yn briodol.

Ysgrifennaf atoch cyn bo hir gyda’r newyddion diweddaraf ynghylch y sefyllfa bresennol.

**Trafodaethau gyda Chynrychiolwyr Estyn**

**C11 Mick Bates:** A yw’r Gweinidog wedi cynnal unrhyw drafodaethau pellach gyda chynrychiolwyr Estyn yn gysylltiedig â strategaethau sydd yn cael eu gweithredu er mwyn mynd i’r afael â’r materion a godwyd yn adroddiad blynyddol Estyn ar gyfer 1999-2000? (OAQ11965)

**Jane Davidson:** Cefais ddau gyfarfod gyda’r prif arolygydd er mwyn cytuno ar gylch gwaith Estyn ar gyfer 2001-02 ac yr wyf yn fodlon bod y rhaglen waith y cytunwyd arni yn y cylch gwaith yn ystyried y materion allweddol a nodwyd yn adroddiad y prif arolygydd ar gyfer 1999-2000. Yr wyf hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd â’r prif arolygydd i adolygu’r cynnydd a wneir o safbwynt y cylch gwaith.

**Cyd-drefnu Gwyliau Ysgolion ledled Cymru**

**C12 Christine Chapman:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gamau i gyd-drefnu gwyliau ysgolion ledled Cymru? (OAQ11927)

**Jane Davidson:** Cyfrifoldeb statudol yr awdurdodau addysg lleol yng Nghymru yw gosod dyddiadau tymhorau a gwyliau ysgolion. Yr wyf ar ddeall bod Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru yn ystyried cyfleoedd ar gyfer cyflwyno dyddiadau unedig ar gyfer tymhorau ledled Cymru.

**Adnoddau Ychwanegol a Ddyranwyd i Addysg Bellach yng Nghymru**

**C13 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw adnoddau ychwanegol a ddyrannwyd yn ddiweddar i addysg bellach yng Nghymru? (OAQ11883) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Nifer y Llyfrau a Chyfrifiaduron a gafodd Ysgolion drwy Gasglu Talebau Cynnyrch**

**C14 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch nifer y llyfrau a chyfrifiaduron a gafodd ysgolion Cymru wrth i gwsmeriaid gasglu talebau cynnyrch? (OAQ11888)

**Jane Davidson:** Nid yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn casglu'r wybodaeth honno, ond yr wyf yn ymwybodol bod ysgolion yn ychwanegu at eu hadnoddau fel hyn. Tra bo cynlluniau o'r fath yn gallu cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ysgolion ychwanegu at eu hadnoddau, maent hefyd yn codi materion eraill, er enghraifft, pa mor dda y mae cyfrifiaduron yn gweithio â'r offer presennol a chost perchnogaeth yn y tymor hwy.

**Cytundeb Partneriaeth**

**C15 Cynog Dafis:** Beth yw asesiad y Gweinidog o'r camau a gymerwyd i wireddu ymrwymiadau yn y cytundeb partneriaeth yn ymwneud ag addysg a dysgu gydol oes? (OAQ11955)

**Jane Davidson:** Yr wyf yn falch o gyhoeddi inni wneud cynnydd sylweddol gyda'n hymrwymiadau, fel a nodwyd yn adroddiad ffurfiol Prif Weinidog Cymru i'r Cynulliad ar 20 Mawrth ynghylch y cynnydd a wnaethpwyd gan y weinyddiaeth yn gyffredinol wrth weithredu 'Rhoi Cymru'n Gyntaf: Partneriaeth ar gyfer Pobl Cymru'. Cyflwynaf adroddiadau yn rheolaidd i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ynghylch y cynnydd a wnaethpwyd o ran ymrwymiadau unigol, gan gynnwys lle gwneir newidiadau i fanylion neu amseriad y cynigion, megis gyda'r fagloriaeth Gymreig neu'r adroddiad ar yr adolygiad a wnaethpwyd o galedi ymysg myfyrwyr.

Fel a nodir yn adroddiad Prif Weinidog Cymru, yr wyf yn bwriadu dod â chynigion gerbron Cyfarfod Llawn cyn toriad yr haf ynghylch ysgolion gwledig llai yng ngoleuni casgliadau ymchwiliad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes i leoedd dros ben mewn ysgolion. Byddaf yn cyflwyno fy nghynigion ar gyfer rownd gynllunio nesaf y gyllideb yng ngoleuni'r ymrwymiadau yr ydym wedi eu gwneud yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'.

**Ymchwiliad i Galedi Ymysg Myfyrwyr**

**C16 Pauline Jarman:** A gaiff argymhellion yr ymchwiliad annibynnol i galedi ymysg myfyrwyr a fabwysiadwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol eu hariannu o Medi 2001 fel y cytunwyd yn y cytundeb partneriaeth? (OAQ11949) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Trafodaethau gyda'r Mudiad People for the Ethical Treatment of Animals**

**C17 Peter Rogers:** A yw'r Gweinidog wedi cynnal unrhyw drafodaethau gyda'r mudiad People for the Ethical Treatment of Animals ynghylch dosbarthu deunydd ymgyrchu i blant ysgol yng Nghymru? (OAQ11963) [R]

**Jane Davidson:** Nac ydw. Mater i benaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion yw penderfynu pa ddeunydd sydd ar gael i'r plant yn eu hysgolion.

**Gwasanaethau Gyrfaoedd yng Nghymru**

**C18 Christine Gwyther:** Pa fecanweithiau sicrhau ansawdd sydd ar waith ar gyfer gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru? (OAQ11884) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Arian Ychwanegol ar gyfer y Sector Addysg Bellach yng Nghymru**

**C19 Richard Edwards:** A all y Gweinidog roi adroddiad ar y camau a gymerwyd i ddyrannu arian ychwanegol ar gyfer y sector addysg bellach yng Nghymru? (OAQ11877) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Deddfwriaeth Anghenion Addysgol Arbennig**

**C20 Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf ynghylch sefyllfa'r ddeddfwriaeth anghenion addysgol arbennig arfaethedig? (OAQ11961) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Recriwtio Athrawon**

**C21 David Davies:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i fynd i'r afael â phroblemau recriwtio athrawon? (OAQ11879)

**Jane Davidson:** Nid yw'r ystadegau a gesglir gan y Cynulliad yn nodi anawsterau sylweddol o ran recriwtio athrawon yng Nghymru.

Fodd bynnag, yr ydym wedi nodi bod angen cynnal a gwella dulliau recriwtio ar gyfer cyrsiau hyfforddi cychwynnol i athrawon ôl-raddedig. Yr wyf wedi ymestyn a symleiddio'r cynlluniau hyfforddi, sydd yn cynnig grantiau hyfforddi ac addysgu hyd at £10,000. Mae'r rhain yn cael effaith—dengys y ffigurau diweddaraf fod cynnydd o bron i 23 y cant yn nifer y ceisiadau o'u cymharu â'r cyfnod hwn y llynedd.

**Cais am Daliad Trothwy**

**C22 Brian Gibbons:** O'r athrawon yng Nghymru sydd yn gymwys i wneud cais am daliad trothwy, pa gyfran sydd wedi gwneud hynny? (OAQ11880) [R]

**Jane Davidson:** Dengys ffigurau'r Adran Addysg a Chyflogaeth fod mwy na 14,000 o athrawon yng Nghymru wedi gwneud cais am yr asesiad trothwy. Mae hynny'n gyfystyr a thua 85 y cant o holl athrawon Cymru sydd yn gymwys i wneud cais.

**Lleihau'r Gwaith Papur sydd yn Wynebu Athrawon**

**C23 Nick Bourne:** Pa ddatblygiadau a ymgymerodd y Gweinidog i leihau'r gwaith papur sydd yn wynebu athrawon yng Nghymru? (OAQ11929)

**Jane Davidson:** Bydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn ystyried yr adroddiad drafft ar leihau beichiau biwrocrataidd ysgolion ar 13 Mehefin. Ei nod yw sefydlu camau gweithredu ar gyfer polisi cynaliadwy i leihau beichiau, a chaiff ei gefnogi gan swyddogion allweddol ym myd addysg mewn ysgolion. Disgwylir cynnal trafodaeth ar yr adroddiad terfynol mewn Cyfarfod Llawn ar 10 Gorffennaf. Os caiff ei gymeradwyo, caiff ei gasgliadau a'i gamau gweithredu arfaethedig eu dosbarthu i ysgolion ac athrawon.

**Ymchwiliad i Galedi Ymysg Myfyrwyr**

**C24 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar hynt yr ymchwiliad i galedi ymysg myfyrwyr? (OAQ11964)

**Jane Davidson:** Mae'r grŵp ymchwilio annibynnol ar galedi ymysg myfyrwyr a nawdd i fyfyrwyr yng Nghymru wedi cwblhau ei ymchwiliad ac mae'n cyhoeddi ei adroddiad heddiw, dydd Iau 14 Mehefin.

**Problemau Cynnal a Chynorthwyo Myfyrwyr**

**C25 Rhodri Glyn Thomas:** Beth, yn ôl yr ymchwiliad annibynnol, yw prif broblemau'r system gyfredol o gynnal a chynorthwyo myfyrwyr? (OAQ11957)

**Jane Davidson:** Mae'r grŵp ymchwilio annibynnol ar galedi ymysg myfyrwyr a nawdd i fyfyrwyr yng Nghymru yn cyhoeddi ei adroddiad heddiw (dydd Iau, 14 Mehefin 2001). Nid wyf wedi cael cyfle eto i astudio'r adroddiad yn fanwl, ond byddaf yn ystyried ei ganfyddiadau a'i argymhellion ac yn gwneud datganiad i'r Cyfarfod Llawn ar 26 Mehefin.

**Addysg i Oedolion yn y Gymuned**

**C26 Cynog Dafis:** Pa fesurau y mae'r Gweinidog wedi'u cyflwyno i sicrhau bod addysg i oedolion yn y gymuned yn cael ei hyrwyddo a'i datblygu ledled Cymru? (OAQ11956)

**Jane Davidson:** Yn ei lythyr cylch gorchwyl, rhoddais gyfrifoldeb i Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant am sicrhau bod mwy o oedolion o bob oedran yn cymryd rhan mewn dysgu, yn enwedig mewn ardaloedd dan anfantais. Rhoddais gyfrifoldeb iddo hefyd am ddefnyddio'i raglenni i greu'r isadeiledd i gefnogi datblygu adnoddau'r gweithlu ledled Cymru, cynyddu cyflawniad personol a galluogi unigolion i gael mwy o reolaeth dros eu dyfodol.

Bydd y cyngor yn ail-lunio patrwm darpariaeth dysgu a sgiliau ledled Cymru gyda'i asesiad anghenion ei hun. Drwy wneud hynny, bydd yn gweithio'n agos ag awdurdodau addysg lleol, y gymuned fusnes, y sector gwirfoddol ac eraill er mwyn cynllunio ar gyfer gwelliannau sylweddol yn narpariaeth integredig dysgu i oedolion a dysgu yn y gymuned.

**Statws Dinasyddiaeth yn y Cwricwlwm Cenedlaethol**

**C27 Richard Edwards:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar statws dinasyddiaeth yn y cwricwlwm cenedlaethol ar hyn o bryd? (OAQ11878) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Gwasanaethau Therapi mewn Ysgolion Anghenion Arbennig**

**C28 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddarpariaeth gwasanaethau therapi mewn ysgolion anghenion arbennig yng Nghymru? (OAQ11882)

**Jane Davidson:** Cyfrifoldeb yr awdurdod iechyd yw cwrdd ag anghenion gofal iechyd sylfaenol y boblogaeth gyffredinol, gan gynnwys amryw o anghenion therapi, dan Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1997. Fodd bynnag, mewn achosion sydd yn ymwneud â phlant sydd â datganiad o'u hanghenion addysgol arbennig, dan Ddeddf Addysg 1996, yr awdurdodau addysg lleol sydd yn gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth a nodir mewn datganiad o anghenion addysgol arbennig yn cael ei chyflawni. Mae hynny'n cynnwys darpariaeth therapi lle nad yw'r awdurdod iechyd yn llwyddo i gynnig y ddarpariaeth honno. Fodd bynnag, nid yw penderfynu pa awdurdod sydd yn gyfrifol am roi sylw i'r diffyg yn y ddarpariaeth yn syml mewn sawl achos.

Dyna pam mae'r Cynulliad wedi gosod mwy o bwyslais ar yr angen am gydweithio agosach rhwng y byd iechyd ac awdurdodau lleol yn y gwaith o gynllunio, comisiynu a chyflwyno gwasanaethau iechyd,

cymdeithasol ac addysgol allweddol ar gyfer plant ac oedolion fel ei gilydd. Mae'r Cynulliad wedi darparu adnoddau ychwanegol sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf ar gyfer gwasanaethau iechyd ac addysg yn gyffredinol dros Gymru. Yr oedd Deddf Iechyd 1999 hefyd yn darparu ar gyfer cronni adnoddau NHS gyda phartneriaid statudol eraill er mwyn hyrwyddo arferion gwaith agosach. Cyhoeddodd y Cynulliad arweiniad olynol dan y teitl 'Hyblygrwydd i Gydweithio rhwng Iechyd a Llywodraeth Leol' fis Tachwedd diwethaf.

Yn ogystal â hyn, yn Nhachwedd, cyhoeddwyd adroddiad 'Provision for Children with Speech and Language Needs in England and Wales—Facilitating Communications Between Education and Health Services'. Mae'r adroddiad, a ddaeth yn sgîl astudiaeth ymchwil fanwl ar draws Cymru a Lloegr a noddwyd ar y cyd rhwng yr Adran Addysg a Chyflogaeth, yr Adran Iechyd a'r Cynulliad, yn archwilio'r rhwystrau sydd yn atal cydweithio agosach ac mae'n llunio argymhellion llawn her ar gyfer gwella.

Mae swyddogion iechyd ac addysg y Cynulliad yn y broses o ystyried yr adroddiad a'i oblygiadau posibl ar gyfer cyflwyno gwasanaethau yng Nghymru. Maent yn ceisio barn y grŵp gwaith therapi yng Nghymru (grŵp a sefydlwyd fel is-grŵp i Grŵp Ymgynghorol Cymru ar Anghenion Addysgol Arbennig) fel rhan o'r broses honno. Mae eisoes yn amlwg o'r adroddiad, er bod angen creu mwy o swyddi therapi lle ceir diffygion, fod yn rhaid cael ymrwymiad llawer cryfach rhwng asiantaethau statudol yn nhermau cytuno ar flaenoriaethau ar y cyd os bydd partneriaethau lleol neu ranbarthol yn cyflwyno gwelliannau cynaliadwy. Dros y misoedd nesaf bydd y Cynulliad yn ystyried beth sydd yn rhaid ei wneud yn ganolog er mwyn hyrwyddo mwy o arferion cydweithredol yng Nghymru.

### Ymchwiliad Annibynnol i Galedi Ymhlith Myfyrwyr

**C29 Pauline Jarman:** Faint o arian sydd wedi'i neilltuo i weithredu'r argymhellion a luniwyd yn sgîl yr ymchwiliad annibynnol i galedi ymhlith myfyrwyr? (OAQ11954) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Gwella Perthynas CBAC â'r Cynulliad

**C30 Alun Cairns:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â Chyd-bwyllgor Addysg Cymru ar wella'i berthynas â'r Cynulliad? (OAQ11945)

**Jane Davidson:** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn mwynhau perthynas ardderchog â CBAC. Yn ein cyfarfod ar 23 Ebrill cytunodd cadeirydd CBAC a minnau y dylem gael cyfarfodydd rheolaidd, o leiaf ddwywaith y flwyddyn ac yn amlach os oes angen. Mae gan swyddogion y Cynulliad hefyd gysylltiadau ardderchog â swyddogion CBAC ac maent yn delio â hwy'n rheolaidd o ddydd i ddydd.

## Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ

### Cael Gafael ar Wybodaeth

**C7 Janet Ryder:** Pa gamau a gymerwyd i'w gwneud yn haws i grwpiau o'r tu allan i'r Cynulliad gael gafael ar wybodaeth? (OAQ11941)

**Y Dirprwy Lywydd (John Marek):** Mae nifer o ddatblygiadau, gan gynnwys:

- agor canolfan ymwelwyr ac addysg Glanfa'r Cynulliad;
- sefydlu'r ganolfan gyhoeddiadau;
- creu cofrestr wybodaeth electronig ar gyfer y cyhoedd;
- ail-ddatblygu gwefan y Cynulliad;
- cyhoeddi cyfres newydd o daflenni gwybodaeth;
- ymestyn y gwasanaethau a deunyddiau addysgol a ddarperir i ysgolion;
- gwella mynediad a gwasanaethau i bobl anabl;
- proffil uwch y Cynulliad mewn digwyddiadau mawr ar hyd a lled Cymru.

Mae cynlluniau hefyd i wella hygyrchedd cynnyrch darlledu'r Cynulliad a gwneud gwell defnydd o'r cyfleoedd am fynediad i'r cyhoedd a ddarperir gan y Pwyllgorau Rhanbarthol.

Byddwn yn fodlon darparu rhagor o fanylion pe byddech yn dymuno hynny.

**Gwella Cyflymder ac Effeithiolrwydd y Rhwydwaith OSIRIS**

**C8 Christine Gwyther:** Pa gamau sydd ar y gweill i sicrhau bod y rhwydwaith OSIRIS yn gweithio'n gyflymach a mwy effeithiol yn swyddfeydd yr etholaethau? (OAW11924) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Arddangosfa Glanfa'r Cynulliad**

**C9 Owen John Thomas:** Pa gynlluniau sydd i wneud arddangosfa Glanfa'r Cynulliad yn fwy deniadol, hygyrch ac ystyrlon i'r cyhoedd sydd yn ymweld â hi? (OAQ11925)

**Y Dirprwy Lywydd:** Agorwyd canolfan ymwelwyr ac addysg Glanfa'r Cynulliad yn llawn i'r cyhoedd fis diwethaf. Mae nifer yr ymwelwyr wedi bod tua 1,000 bob wythnos. Mae'n rhy gynnar i wneud arfarniad ffurfiol o lwyddiant y fenter ond mae ymateb dechreuol yr ymwelwyr â'r safle a'r arddangosfa wedi bod yn gadarnhaol dros ben.

I ddechrau, canolbwyntiodd tîm Glanfa'r Cynulliad ar sicrhau bod elfennau ymarferol y canolfan yn iawn. Y cam nesaf fydd gwerthuso atborth arweinwyr yr ymweliadau grŵp ac o sampl o ymwelwyr sydd wedi galw heibio. Seilir y newidiadau i'r arddangosfa ar yr atborth, a disgwylir y bydd y rhain hefyd yn deillio o newidiadau o fewn y Cynulliad ei hun, a mathau newydd o ddeunyddiau arddangosfa a ddatblygir ar gyfer Pwyllgorau Rhanbarthol a digwyddiadau fel yr Eisteddfod.

**Systemau Gwyrdd ar gyfer 'Cadw Tŷ'**

**C10 Rhodri Glyn Thomas:** Pa drafodaethau y mae Pwyllgor y Tŷ wedi'u cael â'r uned datblygu cynaliadwy ynghylch yr angen am systemau gwyrdd ar gyfer 'cadw tŷ' yn Swyddfa'r Llywydd, fel yr amlinellwyd yn y cynllun gweithredu ar ddatblygu cynaliadwy? (OAQ11940)

**Y Dirprwy Lywydd:** Ni chynhaliwyd unrhyw drafodaethau uniongyrchol.

**Ymrwymiad i Ddatblygu Cynaliadwy**

**C11 Phil Williams:** Pa gamau sydd wedi'u cymryd i sicrhau bod polisi caffael Swyddfa'r Llywydd yn arddangos ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy? (OAQ11942)

**Y Dirprwy Lywydd:** Mae Swyddfa'r Llywydd yn dilyn polisi cyffredinol y Cynulliad ar gaffael. Mae'r rhestr wirio sydd yn llawlyfr caffael y Cynulliad yn nodi bod rhaid sicrhau bod manyleb y tendr yn rhoi sylw dyledus i bolisïau amgylcheddol y Cynulliad.